

Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd yn  
**Siambwr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, nos Lun, 10 Mehefin 2019 am 8:00p.m.**

**PRESENNOL:** Y Cyngorwyr Stephen Beach, Ken Hawkins, Gavin Harris, John Wynne Hughes, Ian Lewney, Jabez Oakes, Robert Owen-Ellis, Heather Williams ac Ifan Wyn.

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. ETHOL CADEIRYDD**

Cynigiwyd ac eiliwyd y Cynghorydd Heather Williams fel Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu, ac ni chyflwynwyd unrhyw enwebiadau eraill.

**PENDERFYNWYD:** *yn unfrydol ethol y Cynghorydd Williams yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu am y flwyddyn ddinesig nesaf, a diolch i'r Cynghorydd Ian Lewney am gadeirio'r Pwyllgor am y tair blynedd ddiwethaf.*

**3. DATGAN BUDDIANNAU**

Datganodd y Cynghorydd John Wynne Hughes fudd personol yng nghais cynllunio 02/2019/0392 – Ysbyty Cymuned Rhuthun fel cyflogai Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

**4. CYLCH GWAITH**

Gofynnwyd i'r aelodau adolygu Cylch Gwaith y Pwyllgor Datblygu a Chynllunio, a mabwysiadu'r fersiwn derfynol. Cynigiwyd ychwanegu brawddeg yn nodi y byddai'r Cylch Gwaith yn cael ei adolygu'n flynyddol.

**PENDERFYNWYD:** *diweddarau'r Cylch Gwaith fel yr amlinellwyd uchod, a mabwysiadu'r fersiwn ddiwygiedig.*

**5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 7 Mai 2019 yn gywir.

**6. MATERION YN CODI**

Holodd y Cadeirydd a dderbyniwyd cais cynllunio ffurfiol gan Aldi Stores a chadarnhaodd y Clerc nad oedd wedi'i dderbyn hyn yma.

**7. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

Adroddodd y Clerc y derbyniwyd y penderfyniad cynllunio a ganlyn gan Gyngor Sir Ddinbych: 02/2019/0219 – Bronwylfa, 8A Stryd y Farchnad, Rhuthun – Newid defnydd cyn siop (Dosbarth A1) yn Stiwdio Ioga (Dosbarth D2) – Caniatawyd

02/2019/0220 - Bronwylfa, 8A Stryd y Farchnad, Rhuthun – Arddangos arwyddion hysbysebu – Caniatawyd

02/2019/0276 – Gorsaf Betrol y Dyffryn, Ffordd Dinbych, Rhuthun – Manylion mesurau i ddiogelu'r twll turio presennol ac atal halogi dŵr daear yn ystod y cyfnod adeiladu – Cymeradwywyd

02/2019/0257 – Tir yn 46 Parc y Castell, Rhuthun – Adeiladu un annedd yn cynnwys llunio mynedfa newydd i gerbydau – Caniatawyd

02/2019/0118 – Crafnant, Ffordd Llanfair, Rhuthun – Adeiladu dau annedd, addasiadau i'r fynedfa bresennol i gerbydau, llunio mynedfa newydd i gerbydau a gwaith cysylltiedig – Caniatawyd

02/2019/0307 – Ruthin School, Ffordd yr Wyddgrug, Rhuthun - Amrywio amod 2 caniatâd cynllunio 02/2015/0313/PF i ganiatáu estyniad i'r cyfnod amser ar gyfer lleoli ystafell ddosbarth dros dro am ddwy flynedd arall – Cymeradwywyd

02/2019/0221 – Tir ar safle Glasdir, Rhuthun – Manylion offer maes chwarae a thriniaeth yr ardal gwagle agored gysylltiedig – Cymeradwywyd

02/2018/1072 – Tir yn (rhan o ardd) The Nook, Bryn Goodman, Rhuthun – Dymchwel garej,

adeiladu un annedd, addasiadau i'r dreif a gwaith cysylltiedig – Caniatawyd.

## **8. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.  
**PENDERFYNWYD:** *nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio a ganlyn, yn ddarostyngedig i'r sylwadau isod.*

### **02/2019/0392 – Ysbyty Cymuned Rhuthun, Stryd Llanrhydd, Rhuthun**

Dymchwel yr estyniad to fflat presennol ac adeiladu estyniad unllawr newydd i ddarparu cyfleusterau meddygfa newydd. Addasiadau mewnol ac uwchraddiol. Addasiadau i'r ffordd fynedfa i gerbydau a'r mawr parcio a ffurfio maes parcio ychwanegol.

### **02/2018/1108 – Tir yn (rhan o ardd) Y Fron, Stryd Mwrog, Rhuthun – cynlluniau diwygiedig**

Adeiladu annedd sengl ac addasiadau i'r fynedfa bresennol i gerbydau

### **02/2019/0460 a 0461 (cais Adeilad Rhestredig) – 2A Stryd y Llys, Rhuthun**

Gosod system wresogi nwy domestig gyda boeler wedi'i danio gyda nwy a ffliw cytbwys

**PENDERFYNWYD:** *bod gwrthwynebiad i'r cais cynllunio a ganlyn, am y rhesymau.*

### **13/2018/1149 – Bron Parc, Galltegfa, Rhuthun**

Adeiladu uned cynhyrchu wyau rhydd yn cynnwys seilos a gwaith cysylltiedig yn cynnwys mynedfa.

*Er bod yr aelodau'n gwerthfawrogi'r angen i arallgyfeirio yn y diwydiant amaeth, teimlir bod maint a graddfa'r cynlluniau arfaethedig yn ormodol ar gyfer y safle, a bod y datblygiad yn mynd i gael effaith amgylcheddol ar yr ardal gyfagos, o ran llygredd tebygol ac arogleuon carthion. Byddai hefyd yn ychwanegu at y traffig trwm ar y ffordd o Rhuthun am Glawddnewydd, yn enwedig yn y rhan o'r gylchfan at Eglwys Sant Mwrog sydd eisoes yn wynebu problemau.*

## **9. CAIS I DDIDDYMU LLWYBR TROED 9 A RHAN O LWYBR TROED 10 A DARGYFEIRIO RHANNAU O LWYBRAU TROED 8 AC 11 YM MAES HAFOD, RHUTHUN**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y cynigion ynghylch llwybrau troed ym Maes Hafod, Rhuthun, yn unol â'r manylion mewn llythyr oddi wrth Tania Evans, Swyddog Mynediad Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych.

**PENDERFYNWYD:** *cefnogi'r cais er mwyn darparu eglurder i drigolion lleol.*

## **10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**PENDERFYNWYD:** *mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 8 Gorffennaf 2019 am 7:45pm.*